4.22

# YR AMSER PRESENOL.

GAN

## EVAN DAVIES, TREFORIS.

GORPHENAF 12, 1859.

Rhyw olwg aruthrol a geir yn bresenol;
Wrth droi i'r cyfandir yno canfyddais
Y Penau coronog a'u marwol eirf trystiog;
Sef Ffrainc a Sardinia, ac ymerodraeth fawr Awstria,
Yn galw 'u byddinoedd dd'od allan yn lluoedd,
A brysio i'r frwydyr wrth arch eu gorthrymwyr
A hwythau'r trueiniaid yn llwfr eu henaid,
Nes methu rhoi ateb, yn ddidderbyn wyneb,
Gan ddywedyd, Ymleddwch eich hunain, os mynwch.
Ni fyddwn byth mwyach a'n chwaeth yn iselach
Nâ'r llewod mawr ffyrnig sy yn rhuo 'n y goedwig.
O syndod! O syndod! mor isel mae pechod
Wedi darostwng dynoliaeth, a'i gollwng
I afael trueni, ing, gwae, a chaledi!
Mae'r nefoedd a'r ddaear, a holl fodau hawddgar
Ymherodraeth y Duwdod yn edrych mewn syndod,
Wrth weled byddinoedd yn dyfod yn lluoedd.
Mewn ysbryd ymladdgar, ag yni distrywgar.
Y llanerch brydfertha' sydd yn y byd yma,

Yw 'r fan sy 'n bresenol a'r olwg arswydol
Yn cael ei mwydo â gwaed, ei choch liwio.
Fe dd'wed dysgedigion, rhai mwya' mhlith dynion,
Nad oes ar y ddaear un dalaeth mor hawddgar.
Yr wyf yn dych'mygu fod uffern yn gwenu,
Wrth wel'd bodau dynol a'u harfau angeuol
Lle mae Moloch a Belial, hen dduwiau y dial,
Wedi codi allorau i dderbyn aberthau
Francis Joseph o Awstria, a Brenin Sardinia,
A Lewis Napoleon, cyfrwysddrwg ei galon
Sydd yn archoffeiriaid i benaeth cythreuliaid
Er arogldarthu, mewn gwaed a thrueni
A gyru eu cyd-ddynion i wlad yr ellyllon.
Y mae eu cyflegrau a'u twrf fel taranau;
Dystrywiant ddinasoedd fu 'n enwog am oesoedd,
A rhifant i angau trwy fin eu cleddyfau
Hen wyr a hen wragedd, heb rith o drugaredd,
A'r fam dyner galon a'i baban bach gwirion
Dderbyniant yr un dynged o law y fileiniaid,
Mae 'r olwg mor greulon nes ydyw yn ddigon
I wneuthur i'r angel i wylo yn uchel
Wrth weled dynoliaeth, yn enw Crist'nogaeth,
Yn gyru eu gilydd i'r farn mor ddirybydd,
Ofergoeledd Pabyddiaeth, a thwyll offeiriadaeth,
Sy yn cadw 'r cyfandir dan draed ei orthrymwyr.
Pwy wyr nad yw'r amser i wawrio ar fyrder
Pan welir awdurdod bob *despot* yn darfod,
Yr un yw yr Arglwydd yn para'n dragywydd,
Dangosodd i ddynion ei bur egwyddorion,
A barn a dywalltodd ar lu yr hen oeso'dd.
Efe fedr etto yn amlwg ddatguddio,

X20 5222047

Fod holl freniniaethau y byd, trwy yr oesau,
O dan ei awdurdod, er Diafol a Phechod.
Edrychwn dros enyd, i hanes y cynfyd,
Hawdd iawn ydyw profi mai Duw sy'n teyrnasu!
Cawn olwg ar Pharaoh, fel llew gwyllt yn rhuo;
Yr oedd e'n crochlefain, Yr Arglwydd nid adwaen,
A byth ni cha' Israel fyn'd allan o'm gafael.
Ond mawr fel ei siomwyd, Had Abraham waredwyd,
Ac yntau a foddodd ynghyd a'i holl luo'dd.
Dystawyd eu dwndwr trwy eu claddu 'n un pentwr,
Yn eigion y dyfroedd gan Arglwydd y lluoedd,
Ei feirch a'i gerbydau a ddrylliwyd yn ddarnau,
A Miriam, chwaer Moses, a ganodd yn felus,
Ynghyd a'i llancesau eu peraidd dympanau,
Oddiyno hyd Ganaan bu iddynt ei hunan
Yn dŵr i'w hamddiffyn yngwyneb bob gelyn,
Dystrywiwyd teyrnasoedd cadarna 'r cenhedloedd;
Phereziaid, Jebusiaid, a llu'r Amaleciaid,
Midianiaid, Moabiaid, a gwlad y Philistiaid,
Yr Hethiaid, a'r Hefiaid, ynghyd a'r Amoriaid,
A döwyd â chywilydd, a gwarth, a gwaradwydd,
Am ddrygu ei bobol sef Israel ddewisol.
Ni lwyddodd un gelyn erioed yn eu herbyn.
Y mae 'r Greadigaeth wrth ei lywodraeth
A gall ef ddefnyddio yr hyn ewyllysio,
Nes taro pob gelyn â chryndod a dychryn.
Mae'r Locust, a'r Lindys, wrth ei ewyllys;
Ceiliogod y rhedyn sydd wrth ei orchymyn.
Mae'r Haul, ac mae'r Lleuad yn ufudd i'w alwad,
A'r Ser, 'nol eu graddau, ymladdant eu goreu,
Mae hen afon Cison yn barod yn union,

Mewn gair, y mae pob peth wrth eu lywodraeth,
Y Penau coronog sy'n awr yn gynddeiriog,
A gorlawn o awydd i ysglyfio eu gilydd.
Hwy allant er pob peth gwidd a siomedigaeth.
Mae'r Arglwydd, ar droiau yn troi yn eu holau
A llwyr waradwyddo rhai wedi ymchwyddo
Mewn hunan, a balchder, a thrais a chreulonder,
A dichon y gwelir holl drais y gorthrymwyr
Sydd heddyw 'n teyrnasu yn llwyr wedi colli
A rhyddid a chysur yn llenwi 'r cyfandir,
A phawb yn meddianu 'r hyn ga'dd eu fwriadu
Gan Dduw i ddynoliaeth. sef rhyddid yn helaeth.
Pabyddiaeth, a gormes, yn ddim ond mewn hanes,
A rhinwedd, a chrefydd, yn ben ar y gwledydd.
Mae prophwydoliaethau a rhagfynegiadau
A holl addewidion y Bibl yn gyson
Oll yn rhagfynegu fod Crist i deyrnasu,
A banner wen rhyddid i chwifio trwy'r holl fyd
A phawb o un galon yn moli Duw yn gyson
Am ddwyn y fath fendith o ganol y tryblith.

---

Dihuned pob cristion, a charwr dynoliaeth;
I feithrin gwir gariad ein llafur fo'n helaeth.
Dangoswn erchylldod pob gormes a rhyfel,
Yn erbyn creulondeb ein llais fyddo'n uchel.
Gweddiwn am nodded doeth Lywydd y bydoedd;
I droi'n byd llygredig yn debyg i'r nefoedd.

E. GRIFFITHS, ARGRAFFYDD, ABERTAWY.